

PENNOD 4

Y Gampfa Goll

BANG!

WAAAW!

CRASH!

WOOOP!

AHHH!

NAAAAAAA!

Y rheiny oedd y prif synau a oedd yn treiddio trwy waliau'r gampfa goll ar fore Mercher y pedwerydd o Fedi am 8:57 y bore. Cerddodd Angharad, Aled ac Anni allan o'r gampfa goll y bore glawog hwnnw wedi llwyr ymlâdd. Ar ôl ugain munud o drïo meithrin eu pwerau roedd y tri ohonynt yn barod i fynd yn ôl i'w gwllâu a chysgu am weddill y diwrnod.

Dechreuodd y sesiwn gyntaf yn y gampfa goll yn ddigon rhesymol. Un wrth un, eglurodd Angharad, Aled ac Anni y pwerau roeddent yn tybio eu bod wedi'u derbyn. Goleuodd wyneb Mr Arwyn wrth glywed am eu pwerau. Yna, holodd Mr Arwyn i'r tri ohonynt drïo dangos eu pwerau yn hytrach na'u hegluro.

Trodd Angharad ei meddwl i ganolbwyntio ar gathod, ei hoff anifail anwes, fel digwyddodd y noson o'r blaen. Yn sydyn, trodd Angharad i edrych fel cath fach ddu. Synnodd pawb wrth weld bod Angharad wedi diflannu ac, yn lle, roedd yna gath fach ddu yn mewian ar lawr y gampfa goll. Ond yn fwy na hynny, synnodd Angharad oherwydd y tro yma roedd ei holl gorff

wedi newid. Nid dim ond ei phrif nodweddion - ei llygaid, clustiau, blew a chynffon - ond y tro yma roedd gan Angharad bawennau yn lle dwylo ac roedd ei gwallt brown wedi diflannu'n gyfan gwbl ac yn ei le roedd blew du. Roedd pwerau Angharad yn tyfu'n gryfach yn barod!

Neidiodd Anni wrth weld llygaid glas y gath yn treiddio arni gan anghofio'n llwyr mai Angharad oedd y gath fach honno. Mewn fflach, neidiodd Anni'r eildro wrth weld ei hun yn sefyll ble roedd y gath yn gorwedd a mewian eiliadau yn ôl.

"WAW!" dwedodd Aled gan edrych yn gegrwth ar yr Anni newydd.

"Ti ddim o ddifri?! Mae hwnna mor **cŵl!**" ymatebodd Anni wrth wenu ar ei hefaill newydd.

Heb rybudd, chwarddodd Aled yn groch. Cododd ei law dros ei geg i drio stopio'r sŵn, ond roedd rhywbeth wedi gwneud i Aled chwerthin llond ei fol ac roedd e'n methu stopio.

"Beth sydd mor ddoniol?" holodd Mr Arwyn.

Yn raddol, stopiodd Aled chwerthin a throdd ei wyneb yn ddifrifol. Wrth i Aled ymddiheuro am y chwerthin trodd Angharad yn ôl i fod yn hi ei hun unwaith eto.

"Mae'n amlwg ein bod ni wedi methu'r jôc, Aled. Felly, dywed beth oedd mor ddoniol?" holodd Mr Arwyn eto.

Petrusodd Aled ychydig cyn dweud, “Nes i glywed chi’n dweud eich bod chi’n edrych ymlaen at weld os all Angharad droi i edrych fel chi Syr fel eich bod chi’n gallu cael diwrnod o wyliau heb i neb wybod. Sori Syr, wnes i ddim trio darllen eich meddwl.”

Chwarddodd Angharad ac Anni ar y syniad o Angharad fel pennaeth newydd Ysgol Tir Na Nog am ddiwrnod! Er mawr rhyddhad i Aled, ymunodd Mr Arwyn yn y chwerthin hefyd.

“Wel, dyna un ffordd o ddangos dy bŵer!” dwedodd Mr Arwyn gan chwerthin hyd yn oed yn fwy.

Nawr roedd hi’n tro Anni i ddangos i bawb ei phŵer newydd. Canolbwyntiodd i ddechrau ar ei llaw dde. Syllodd yn galed ar ei llaw yn y gobaith byddai’r llaw yn diflannu o olwg pawb, ond doedd dim byd yn digwydd. Roedd ei llaw dde a’r pum bys ar y llaw honno yn glir ac amlwg i bawb yn y gampfa goll. Dechreuodd ganolbwyntio ar ei bysedd yn lle, syllodd hyd yn oed yn galetach ar ei phum bys, ond eto digwyddodd dim byd. Yna, canolbwyntiodd ar ei bys bach. Roedd angen i rywbeth ddiflannu neu byddai pawb yn dechrau meddwl ei bod hi’n dweud celwydd. Yn fwy na hynny, byddai pawb yn dechrau meddwl nad oedd hi wir yn rhan o’r tîm cyfrinachol a phwerus wedi’r cyfan!

Ond cyn i Anni golli pob ffydd ynddo’i hun, dechreuodd Angharad glapio a daeth y synau ‘oooo’ ac ‘ahhh’ o gegau Aled a Mr Arwyn.

Doedd Anni ddim yn siŵr beth yn union a oedd yn digwydd am eiliad nes iddi weld ei choesau, neu ddiffyg coesau i fod yn hollol gywir. Roedd ei choesau wedi diflannu ond roedd ei llaw dde mor amlwg ag erioed. Ochneidiodd Anni'n anhapus. Doedd dim syniad gyda hi pam neu sut roedd rhannau gwahanol o'i chorff yn diflannu o hyd ac roedd hynny'n broblem fawr.

Am weddill y wers gyntaf yn y gampfa goll dangosodd Mr Arwyn gwir ehangder ei bŵer, sef y pŵer dros bethau – unrhyw beth ond nid unrhyw un. Hedfanodd hen beli tennis ar hyd y gampfa, ysgwydodd y rhaffau o'r nen, rhwygodd ffenestri'r gampfa goll ar agor â chlep mawr, caeodd drysau'r gampfa goll gyda chlep hyd yn oed yn fwy, a dechreuodd y llawr o dan Angharad, Aled ac Anni symud a chodi!

Yn ôl Mr Arwyn, er mwyn meithrin eu pwerau i'w potensial gorau roedd angen cryfhau'r corff a'r meddwl. Y bore hwnnw, cryfhau'r corff oedd y nod, felly creodd Mr Arwyn gwrs rhwystr anhygoel na welwyd yr un tebyg erioed.

Ochneidiodd Angharad yn dawel wrth ei hun. MWY o ymarfer corff?!

Dilynodd Angharad esiampl Aled ac Anni wrth iddynt neidio dros y clwydi, cropian o dan y rhwydi, dringo'r rhaffau yr holl ffordd i'r nen, a thaflu peli basged i mewn i'r rhwydi. Ar ôl neidio dros y clwydi, cafodd Angharad ychydig o drafferth wrth gropian o dan y rhwydi. Sylwodd Aled ar Angharad a oedd wedi cael ei dal ynghanol y rhwyd. Trodd yn ôl ati gan estyn ei law iddi. Roedd Angharad yn methu credu'r peth. Roedd Angharad am ddal llaw Aled am yr eildro o fewn deuddydd! Gafaelodd Angharad yn llaw Aled ac wrth i Aled ei thynnu trwy'r rhwyd cododd Anni rhan o'r rhwyd er mwyn i'r ddau llithro allan heb drafferth.

“Gwych! Gwaith tîm arbennig, cariwch ymlaen a byddwch wedi meithrin gwir ehangder eich pwerau o fewn dim!” gweiddodd Mr Arwyn arnynt.

Trodd Angharad, Aled ac Anni i edrych ar ei gilydd gan wenu. O’r eiliad honno, roedd cyfeillgarwch unigryw iawn wedi dechrau tyfu rhwng Angharad, Aled ac Anni ac roedd y tri ohonynt yn edrych ymlaen yn fawr at dreulio cofrestru gyda’i gilydd ddydd Mercher nesaf.

Wrth i’r tri adael y gampfa goll a cherdded ar hyd y coridor tywyll i brif adeilad yr ysgol, trodd Aled at Angharad gan ddweud ei fod e’n hoffi gwyllo *Supergirl* ar ôl ysgol hefyd. Cochodd Angharad wrth sylweddoli fod Aled wedi darllen ei meddwl a’i fod yn gwybod un o’i chyfrinachau. Cochodd Angharad hyd yn oed yn fwy fyth wrth feddwl am yr holl bethau eraill byddai Aled wedi gallu eu darllen. Gan gynnwys ei hoffter hi tuag ato!

Sylwodd Aled ar fochau coch Angharad a dwedodd yn frysiog,

“Sori, addo na’i ddim darllen dy feddwl eto. Ar hyn o bryd mae pethau’n ymddangos yn fy meddwl heb fy nghaniatâd.”

Gwelodd Angharad fod bochau Aled bellach wedi cochi hefyd, felly gwenodd arno’n swil a’i gysuro trwy ddweud bod popeth yn iawn gan nad oedd hithau gydag afael llwyr ar ei phwerau ei hun eto chwaith.

Roedd Aled yn ddiolchgar dros ben nad oedd Angharad wedi gwylltio. Yn ystod y wers yn y gampfa goll, pan gynigodd Aled ei law i Angharad, clywodd Aled llais Angharad yn ei feddwl. Roedd y llais hwnnw'n gorchymyn i'w chalon dawelu. Cymrodd ychydig o eiliadau i Aled ddeall beth roedd Angharad yn ei olygu trwy ddweud y fath beth. A oedd Angharad Mair Elis yn hoffi Aled?! A oedd breuddwydion Aled wedi dod yn wir?! Bod y ferch fwyaf glên, hyfryd, clyfar, doniol a phert o flwyddyn wyth Ysgol Tir Na Nog yn ei hoffi?!

Oherwydd y neges sydyn honno a grwydrodd o feddwl Angharad i feddwl Aled, penderfynodd Aled ei fod am wneud ymdrech i ddod i nabod Angharad hyd yn oed yn well – gan ddechrau gyda rhywbeth roedd y ddau ohonynt yn hoffi'n fawr, y gyfres *Supergirl*. Wrth i'r tri gyrraedd prif adeilad yr ysgol, diolchodd Aled mai darllen meddyliau oedd ei bŵer.

Aeth y dydd Mercher hwnnw rhagddi fel unrhyw ddydd Mercher arall yn yr ysgol – yn **ARAF** dros ben. Heblaw amser egwyl ac amser cinio, hedfanodd amser egwyl a chinio wrth gwrs, a chyn pen dim roedd y tri yn ôl yn eu gwersi. Ond roedd y diwrnod wedi mynd hyd yn oed yn fwy araf i un o'r tri, sef Anni.

Oedd, roedd Anni yn casáu ei phŵer. Teirgwaith o fewn yr un drafodaeth gyda'i ffrindiau yn ystod yr awr ginio, roedd rhannau gwahanol o gorff Anni wedi diflannu. Y peth gyntaf i ddiflannu oedd ei bys bach ar ei llaw dde, a oedd wedi penderfynu diflannu am funud gyfan. Unwaith i'r bys bach hwnnw ail ymddangos, diflannodd ei throed chwith yn gyfan gwbl. Ond lwcus i Anni roedd ei bag wrth law i'w guddio. Yna, diflannodd ei

phen, ond diolch byth daeth Angharad draw i'w hachub gan sefyll o'i blaen a'i chuddio nes i'w phen ail ymddangos!

Roedd ffrindiau Anni, fel Beca a Hanna, wedi dechrau sylwi pa mor agos roedd Anni bellach gydag Angharad ac roedd sawl un ohonynt yn genfigennus. Doedd y criw o ffrindiau ddim yn deall pam byddai rhywun fel Anni yn siarad gyda rhywun fel Angharad. Yn ystod amser cinio y diwrnod hwnnw, dealodd Anni nad 'ffrindiau' go-iawn oedd y criw yma o ferched ond pobl a oedd yn defnyddio merched eraill er mwyn eu hanghenion hunanol. Addawodd Anni wrthi hi ei hun y byddai'n gwneud yn siŵr na fyddai'r criw yma o ferched yn gas i Angharad byth eto.

Ers y wers yn y gampfa goll gyda Mr Arwyn roedd y tri ohonynt – Angharad, Aled ac Anni – wedi eu rhoi yn nifer o'r un gwersi. Yn ôl Mr Arwyn, y rheswm dros hyn oedd er mwyn rhoi'r cyfle i'r tri ddod i nabod ei gilydd yn well. Yn ôl Mr Arwyn, roedd hi'n ofnadwy o bwysig i'r tri ddysgu i weithio fel tîm, yn barod at pan fydd y galw'n codi i'r tri ddefnyddio'u pwerau. Er doedd dim un o'r tri'n gwybod yn iawn pa fath o broblem a fyddai'n golygu eu bod nhw'n cael defnyddio'u pwerau'n gyhoeddus! Yn fwy na hynny, roedd Angharad, Aled ac Anni yn tybio bod yna reswm arall dros roi'r tri ohonynt yn yr un gwersi... ac roedd y tri ohonynt yn gywir. Roedd y tri ohonynt hefyd yn gywir i feddwl bod y rheswm yn rhywbeth i wneud gyda'u rhieni coll.

Yn ddjarwybod iddynt roedd Mr Arwyn yn poeni bod yr athrawes wyddoniaeth newydd, Miss Daniels, wedi derbyn y swydd yn Ysgol Tir Na Nog am y rhesymau anghywir...